O am gael ffydd i edrych

Caneuon Ffydd: Rhif 189

O am gael ffydd i edrych
gyda'r angylion fry
i drefn yr iachawdwriaeth,
dirgelwch ynddi sy:
dwy natur mewn un person
yn anwahanol mwy,
mewn purdeb heb gymysgu
yn eu perffeithrwydd hwy.

O f'enaid, gwêl addasrwydd
y person dwyfol hwn,
dy fywyd mentra arno
a bwrw arno'th bwn;
mae'n ddyn i gydymdeimlo
â'th holl wendidau i gyd,
mae'n Dduw i gario'r orsedd
ar ddiafol, cnawd a byd.

ANN GRIFFITHS, 1776–1805

MYFYRDOD

Gofynnodd darlithydd athroniaeth yn Rhydychen ryw dro wrth dderbyn gwaith yn cynnwys dyfyniad o'r emyn hwn: 'dwy natur mewn un person . . .' wedi ei drosi i'r Saesneg, pa feddwl athronyddol mawr oedd wedi llunio gosodiad mor aruchel a syml? Atebodd y myfyriwr mai Ann Griffiths o Ddolwar Fach oedd piau ef. Ac onid yw hi'n un o emynwyr mawr y byd?

Cawn eto ei hawydd cyfriniol i ymgolli yn Nuw ar ddechrau ei phennill cyntaf. 'Yn ôl eich ffydd boed i chwi' meddai Iesu wrth y ddau ddyn dall ym Mathew 9:29, a chawsant weld. Os oedd angen ffydd i gael agor eu llygaid naturiol, yna gymaint mwy o ffydd sydd ei angen arnom ni i 'edrych … i drefn yr iachawdwriaeth'; mae hi'n rhan o ddirgelwch Duw y mae'r

angylion yn rhyfeddu wrth syllu arni. Dirgelwch hefyd ydy person Iesu Grist – y ddwy natur mewn un person sydd yn sail i drefn yr iachawdwriaeth.

Perthyn i'r Eglwys Wladol oedd Ann cyn ei thröedigaeth, a byddent ar y gwyliau pwysig yn adrodd yno Gredo Athanasius sydd â rhannau ohono'n debyg i ail hanner y pennill cyntaf ganddi yma. Gall yr Arglwydd ddwyn pethau y credem ein bod wedi eu hanghofio yn ôl i'n cof os bydd hynny'n ein helpu ni i gredu ynddo. 'Cofiodd ei ddisgyblion iddo ddweud hyn, a chredasant yr Ysgrythur, a'r gair yr oedd Iesu wedi ei lefaru' a ddysgwn ni yn Ioan 2:22. Ond mae'r geiriau hyn am y 'ddwy natur' yn debyg i eiriau Dewrgalon wrth Cristiana a'i chwmni yn *Taith y Pererin* ac yn adleisio Diffiniad Chalcedon ym 451 o Berson Crist hefyd. Beth bynnag fu'n ddylanwad ar Ann i lunio'r emyn hwn yn ei gyfanrwydd, mae'n amlwg bod ganddi ddirnadaeth eglur iawn o Athrawiaethau Gras ac nid yw'n cael dim anhawster, yn wir mae'n bencampwraig ar eu hegluro yn ei meddwl ei hun a rhoi mynegiant croyw iawn iddynt mewn barddoniaeth.

O ddeall pwy yw Iesu a rhoi mynegiant i hynny, fe sylweddolodd nad oedd un mwy addas nag ef ar gyfer ei henaid mewn bod: 'O f'enaid gwêl addasrwydd y person dwyfol hwn.' Sonnir mai dyma'r pennill cyntaf o'r fath iddi'i lunio a hynny ar y ffordd adref o'r seiat fach ym Mhontrobert. Mae lle gennym oll yn ein heneidiau i Grist, lle neilltuol, nad oes neb a all ei lenwi'n iawn ond ef ei hun; o'i gael i lenwi'n gwbl addas y lle hwnnw ar ei gyfer a mentro'n bywyd arno, fe all wedyn, yn ei ddwy natur, gydymdeimlo â'n gwendid a chario'r orsedd ar ein holl elynion. Oedwn ennyd uwch yr emyn hwn i ddotio ar gyfuniad y dweud cwbl groyw a'r profiad byw a roddodd fod iddo.

GWEDDI

Ni allaf ond adleisio geiriau'r emyn, fy Nhad, a sylwi 'ar addasrwydd y person dwyfol hwn', yn 'ddyn i gydymdeimlo' ac yn 'Dduw i gario'r orsedd'. 'O am gael ffydd i edrych' a gweld y dirgelwch yma'n eglur yn Iesu Grist. Pob clod a gogoniant fyddo i'th enw di. Amen.